

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG
Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.
Teleffon: Botwnnog 730357

6ed Gorffennaf, 2022

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Nos Lun nesaf, 11eg Gorffennaf, 2022 am 7.30 y.h. yn Neuadd Goffa, Sarn.

1. CROESAWU'R AELODAU A'R DDAU AELOD NEWYDD

Nodyn – bydd angen i'r ddau aelod newydd, Gwenan Griffiths ac Efan Thomas arwyddo eu bod yn derbyn y swydd ac hefyd yn parchu'r Côd Ymddygiad, cyn dechrau ar fusnes y Cyngor.

2. YMDDIHEURIADAU

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn gwybodaeth.

4. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIUYD 13eg MEHEFIN, 2022

Copi'n amgaeedig.

"A"

I drafod y materion yn codi o'r cofnodion fel a ganlyn:

(A)Eitem 19 Cadarnhau Cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 10fed Mai, 2022 – Cymal (I) – materion yn codi o'r Cyfarfod Blynyddol

(a) Adroddiad Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd.

Copi'n amgaeedig.

"B"

(b) Adroddiad Gwenan Griffiths, cynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Pont-y-Gôf.

(c) I ethol aelod ychwanegol i wasanaethu ar Bwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor o Un Llais Cymru. Mae'r Cynghorydd Carys H. Evans eisoes wedi cytuno i gynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor.

(B)Dathlu

I ystyried ymhellach.

5. CEISIADAU CYNLLUNIO

I ystyried y cais isod ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor.

Cais C22/0566/32/LL – codi ffensys hyd at 2.4m o uchder mewn lleoliadau amrywiol o fewn tir Ysgol Botwnnog.


6. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

(a) A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

(b) Gwybodaeth gan Beiriannydd Ardal Dwyfor ar 4ydd Gorffennaf, 2022, y bydd gwaith draeniad yn cael ei wneud ger Capel Ty Mawr, Bryncroes, yn ystod mis Gorffennaf.

7. **MEDDYGFA RHYDBACH, BOTWNNOG**
Copi o ymateb dderbyniodd Mabon ap Gwynfor, yr Aelod Seneddol, oddi wrth Ddirprwy Brif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.
Amgaeedig. “C”
8. **GWEITHDAI ARDAL NI 2035**
Gwahoddiad i ethol dau aelod i fynychu gweithdai ynglyn a’r uchod.
Copi’n amgaeedig. “CH”
9. **AWDURDOD I DALU**
I awdurdodi unrhyw daliad ddaw yn ddyledus cyn noson y Cyngor
10. **CYFRANIADAU ARIANNOL**
Adroddiad y Clarc.
11. **HAWLIAU MIS AWST**
12. **SESIYNAU HYFFORDDI GAN UN LLAIS CYMRU**
I gyflwyno gwybodaeth am sesiynau a gynigir ym mis Gorffennaf.

Yn gywir,



Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR
Y CYNGHORWYR**

Carys H. Evans
Dylan Parry Jones
Efan Thomas
Iwan J. Williams

Elin Hughes
Glyn Roberts
Carys E. Williams
Siôn Williams

Gwenan Griffiths
Michael Strain
Glenys Williams